

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi
(Cymru)**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddMCD@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi
(Cymru)**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Dafydd Elis-Thomas
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	6
Cylch gwaith y Pwyllgor	6
Cyflwyno'r Bil a'i drafod	6
2. Cefndir.....	7
Diben y Bil	7
3. Cymhwysedd Deddfwriaethol	9
Memorandwm Esboniadol	9
Ystyriaethau Hawliau Dynol.....	9
Ein barn ni.....	9
4. Sylwadau cyffredinol	11
Natur y Bil	11
Diddymiadau a diwygiadau	11
Ein barn ni.....	12
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a materion eraill	13
Cefndir.....	13
Rhan 2 – Contractau Meddiannaeth a Landlordiaid	13
Adran 22 – Pwerau o ran darpariaethau sylfaenol.....	13
Ein barn ni.....	13
Rhan 3 – Darpariaethau sy'n gymwys i bob contract meddiannaeth	14
Adran 55 – Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall.....	14
Adran 56 – Y pŵer i ddiwygio adran 55	14
Ein barn ni.....	14
Rhan 11 – Darpariaethau Terfynol	15
Adran 254 – Dod i rym	15
Ein barn ni.....	16

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Cynulliad yn ystod trafodaethau Cyfnod 1 ynghylch sut y mae'r Bil yn ymgysylltu â hawliau dynol ac os gall y Gweinidog gyfiawnhau ymyrraeth, ar ba sail y byddai hynny.

(Tudalen 10)

Argymhelliad 2. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i osod y diddymiadau a'r diwygiadau ar wyneb y Bil.

(Tudalen 12)

Argymhelliad 3. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i adran 22 y Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso i bob newid i'r darpariaethau sylfaenol sy'n gymwys i gontract meddiannaeth.

(Tudalen 13)

Argymhelliad 4. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu'r diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn adran 55, gyda golwg ar ei ddiwygio i sicrhau bod yr ystyr yn glir, ac yn rhoi'r pwys priodol ar ddifrifoldeb cam-drin domestig.

(Tudalen 14)

Argymhelliad 5. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n glir yn ystod trafodaethau Cyfnod 1 sut y mae'r egwyddor o gymesuredd yn gymwys i'r diffiniad presennol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad a waherddir yn adran 55 o'r Bil.

(Tudalen 15)

Argymhelliad 6. Argymhellwn fod y weithdrefn negyddol yn cael ei chymhwyso i orchmynion cychwyn sy'n cynnwys darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed a wneir yn unol ag adran 254(3).

(Tudalen 16)

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â hwy.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliâu'r Cynulliad ac ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

Cyflwyno'r Bil a'i drafod

4. Ar 9 Chwefror 2015, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ("y Gweinidog") y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.¹
5. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w ystyried, gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol erbyn 26 Mehefin 2015.
6. Trafodwyd y Bil yn ein cyfarfod ar 11 Mai 2015, pryd y cafwyd tystiolaeth gan y Gweinidog.

¹ Llywodraeth Cymru, y *Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)*, Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r *Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Chwefror 2015.

2. Cefndir

Diben y Bil

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Mae'r Bil hwn yn crynhoi ac yn moderneiddio'r set gymhleth sydd gennym o ddeddfwriaeth er mwyn creu un darn o ddeddfwriaeth. Y nod yw ceisio gwella'r trefniadau ar gyfer rhentu cartrefi yng Nghymru. Dyma a gynigir drwyddo:

- (i) Dau brif fath o gontract meddiannaeth, i gymryd lle'r trefniadau meddiannaeth presennol;
- (ii) Bydd telerau sylfaenol y contractau newydd hyn yn cael eu gosod allan ar wyneb y Bil; ceir telerau atodol yn y rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a thelerau ychwanegol y gall y landlord a deiliad y contract eu negodi a chytuno arnynt;
- (iii) Bydd yn rhaid i'r contractau ymdrin hefyd â materion allweddol fel cyfeiriad yr eiddo, lefel y rhent a'r cyfnod rhentu; a
- (iv) Contractau model a fydd yn ymgorffori'r telerau sylfaenol ac atodol perthnasol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.”²

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai nod hynny yw:

"(i) Fframwaith cyfreithiol cliriach a mwy rhesymegol sy'n deg a chydadd;

(ii) Sylfaen syml ac effeithiol ar gyfer rhentu cartref oddi wrth landlord cymunedol neu landlord preifat;

(iii) Helpu landlordiaid a thenantiaid i ddeall hawliau a chyfrifoldebau ei gilydd i osgoi'r problemau a'r anawsterau a sydd yn y system bresennol;

(iv) Mwy o hyblygrwydd i landlordiaid cymunedol, landlordiaid preifat a gwasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion pobl o

² Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.

ran tai, gan gynnwys y rheini sy'n perthyn i grwpiau agored i niwed.”³

³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.

3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Memorandwm Esboniadol

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon yn rhinwedd pwnc 11 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.⁴
10. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad.⁵

Ystyriaethau Hawliau Dynol

11. Mae ystyried hawliau dynol yn hanfodol i asesu a yw Bil o fewn cymhwysedd. Mae darpariaethau'r Bil yn defnyddio Erthygl 8⁶ ac Erthygl 6⁷ o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ogystal ag Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn.⁸ Ychydig iawn o gyfeiriadau sydd yn y Memorandwm Esboniadol at hawliau'r Confensiwn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn canolbwyntio ar hawliau plant o dan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
12. Pan holwyd Llywodraeth Cymru a oedd wedi ystyried hawliau dynol, cafwyd ateb cyffredinol. Ni roddodd unrhyw fanylion, gan ddweud fel a ganlyn:

"We carry out a very thorough assessment of provisions."⁹

Ein barn ni

13. Nodwn farn y Gweinidog ynghylch gallu'r Cynulliad i wneud y ddeddfwriaeth hon.
14. Yn ein barn ni, roedd tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru ynghylch yr ystyriaethau hawliau dynol yn amwys.

⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.

⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor"), Cofnod y Trafodion, [5].

⁶ Mae Erthygl 8 yn y cyd-destun hwn yn diogelu hawl person i barch at ei gartref.

⁷ Mae Erthygl 6 yn diogelu'r hawl i gael treial teg.

⁸ Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 yn diogelu mwynhad o eiddo person, ond caiff y gyfraith amddifadu person o'i eiddo er budd y cyhoedd, yn amodol ar egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol.

⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Cofnod y Trafodion [82].

15. Mae'n hanfodol bod gan y Cynulliad hyder bod effaith deddfwriaeth ar hawliau dynol sylfaenol wedi'i hystyried yn drylwyr a bod cydbwysedd priodol rhwng hawliau gwrthgyferbyniol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) a oedd yn pwysleisio mor bwysig yw dogfennau a gaiff eu llunio gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad wrth ystyried a ydynt yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Cynulliad yn ystod trafodaethau Cyfnod 1 ynghylch sut y mae'r Bil yn ymgysylltu â hawliau dynol ac os gall y Gweinidog gyfiawnhau ymyrraeth, ar ba sail y byddai hynny.

4. Sylwadau cyffredinol

Natur y Bil

16. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r Bil hwn yn seiliedig ar waith Comisiwn y Gyfraith, a fu'n adolygu'r gyfraith tai yn 2006 ar gais Llywodraeth y DU. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith newidiadau sylfaenol i'r cyfreithiau ynghylch rhentu, a lluniodd Fil drafft. Dewisodd Llywodraeth y DU beidio â gweithredu trwch yr argymhellion hynny yn Lloegr. Yn 2013, ar gais Llywodraeth Cymru, aeth Comisiwn y Gyfraith ati i adolygu a diweddarau ei argymhellion ar gyfer Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“it absolutely draws on the work of the Law Commission, so it’s got a very solid and very firm evidence base.”¹⁰

17. Er nad yw hwn yn Fil cydgrynhoi, mae iddo elfennau o gydgrynhoi. Yn ôl y Gweinidog:

“the Bill will also put the vast majority of primary legislation relating to arrangements for occupying homes into one Act....this Bill will then form the absolute principal legislation when it comes to renting homes.”¹¹

Diddymiadau a diwygiadau

18. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod deddfwriaeth sy'n bod eisoes yn cael ei diddymu a'i diwygio'n helaeth. Nid yw hyn yn cael ei gynnwys yn y Bil; yn hytrach bydd yn rhan o is-ddeddfwriaeth.

19. Pan holwyd Llywodraeth Cymru pam y dewisodd wneud hyn, eglurodd fel a ganlyn:

“it is a huge Bill, and providing core consequential amendments is seen as part of the implementation project of the Bill, which is why we thought it was appropriate to take an Order-making power in this regard.”¹²

20. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn gwybod beth oedd angen ei ddiddymu. Ychwanegwyd y byddai'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac y byddai, felly, yn destun

¹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Y Cofnod [26].

¹¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Y Cofnod [26].

¹² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Y Cofnod [11].

craffu.¹³ Roedd yn cytuno y gallai fod wedi rhoi llawer o'r diddymiadau a'r diwygiadau ar wyneb y Bil, ond teimlai y gallai, fwy na thebyg, fod wedi gwneud rhagor:

“So, in some terms, it’s a bit of a judgment call, and, is it better to have it in the Bill and then have other Orders subsequently making amendments, or is it better to have it in one place? For the sake of clarity, I think that there’s a good argument to have it in one Order as part of that implementation.”¹⁴

Ein barn ni

21. Rydym yn croesawu defnydd y Llywodraeth o arbenigedd Comisiwn y Gyfraith. Fel rhan o'n hymchwiliad i Ddeddfu, rydym wedi trafod yn fras pa mor hygyrch yw deddfwriaeth. Rydym yn falch o weld camau'n cael eu cymryd i wneud deddfwriaeth sy'n cael y fath effaith ar bobl ledled Cymru yn fwy hygyrch ac yn haws i'w deall. Fodd bynnag, credwn y gellid bod wedi mynd ymhellach.

22. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi gan y penderfyniad i osod y diddymiadau a'r diwygiadau mewn is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal â thanseilio lefel y craffu sydd ar gael, mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach i'r cyhoedd ddeall goblygiadau llawn y Bil. Mae hyn yn arbennig o siomedig o ystyried mai un o amcanion y ddeddfwriaeth yw sicrhau fframwaith cyfreithiol cliriach a gwella dealltwriaeth landlordiaid a thenantiaid o'u hawliau a'u cyfrifoldebau.¹⁵ Rydym hefyd yn nodi'r awgrym y gallai maint y Bil benderfynu ar y wybodaeth a gynhwysir ar ei wyneb. Nid oes gwerth i hyn yn ein barn ni.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i'r Bil i osod y diddymiadau a'r diwygiadau ar wyneb y Bil.

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015 [19].

¹⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015 [17].

¹⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a materion eraill

Cefndir

23. Mae'r Bil yn cynnwys 255 o adrannau ac 11 atodlen. Mae 30 o bwerau gwneud rheoliadau, ac mae 13 ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, neu fe allent fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, os bydd y rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae un pŵer i wneud gorchmynion nad oes gweithdrefn yn gymwys iddo.

24. Croesawn gydbwysedd y Llywodraeth rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y Bil hwn, a chredwn fod y dewis o weithdrefn yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion. O ganlyniad, nid oes gennym ond rhai sylwadau ar ambell adran.

Rhan 2 – Contractau Meddiannaeth a Landlordiaid

Adran 22 – Pwerau o ran darpariaethau sylfaenol

25. Mae adran 22 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu neu ddileu darpariaethau sylfaenol sy'n gymwys i gontractau. Pe byddai'r rheoliadau yn diwygio'r Bil, byddent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Pe na byddent yn diwygio'r Bil, byddent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Dyna fyddai'r achos pe byddai Gweinidogion Cymru yn dewis gwneud rheoliadau a oedd yn cynnwys darpariaethau rhestredig neu ddarpariaethau sylfaenol newydd y mae'n rhaid eu cynnwys heb eu newid ym mhob contract, ond heb wneud unrhyw newid i wyneb y Bil.

Ein barn ni

26. Rydym yn pryderu y gallai telerau sylfaenol newydd gael eu creu heb y lefel briodol o graffu. Mae hefyd, i bob golwg, yn gwrth-ddweud nod Llywodraeth Cymru o wneud hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid yn gliriach i'r ddwy ochr.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i adran 22 y Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso i bob newid i'r darpariaethau sylfaenol sy'n gymwys i gontract meddiannaeth.

Rhan 3 – Darpariaethau sy'n gymwys i bob contract meddiannaeth

Adran 55 – Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall

Adran 56 – Y pŵer i ddiwygio adran 55

27. Mae Adran 55 o'r Bil yn diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol fel ymddygiad 'a allai beri niwsans neu annifyrrwch'. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn dor-contract i unrhyw un ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu fygwth ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu ganiatáu, cymell neu annog unrhyw berson sy'n byw yn yr annedd neu'n ymweld â'r annedd, i ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu fygwth ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Mae hon yn ddarpariaeth sylfaenol, oherwydd rhaid ei hymgorffori yn yr holl contractau rhentu.

28. Mae adran 56 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 55 drwy reoliadau, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Ein barn ni

29. Cytunwn gyda Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol a bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

30. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch y diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ymddygiad gwaharddedig a nodir ar wyneb y Bil. Mae'n ddiffiniad eang iawn, a allai arwain at wahaniaethau o ran dehongli. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“for me, absolutely domestic abuse comes under that annoyance and nuisance term.”¹⁶

31. Ac eto, nid yw'n glir i ni y byddai'r diffiniad presennol yn cwmpasu cam-drin domestig.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu'r diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn adran 55, gyda golwg ar ei ddiwygio i sicrhau bod yr ystyr yn glir, ac yn rhoi'r pwys priodol ar ddifrifoldeb cam-drin domestig.

32. Gallai diffiniad mor eang hefyd olygu y gallai ymddygiadau llai difrifol gael eu cwmpasu gan y diffiniad.

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Cofnod y Trafodion [39].

33. Beirniadodd Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin ddiffiniad yr un mor eang o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y broses graffu cyn deddfu ar y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Roedd yn pwysleisio bod angen bod yn gymesur.¹⁷

34. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at gymesuredd o gwbl. Pan holwyd Llywodraeth Cymru am hyn, eglurodd fel a ganlyn:

“The tests are there. The balancing of various people’s rights is there. Consideration of proportionality, and consideration of the role of the courts – that’s all there.”¹⁸

35. Nid ydym yn fodlon bod y Memorandwm Esboniadol yn dangos hyn yn glir, yn enwedig sut mae ei gwneud yn bosibl i droi allan ddeiliaid contractau ar seiliau mor eang fel "ymddwyn neu fygwth ymddwyn mewn modd a allai beri niwsans neu annifyrrwch" yn fodd cymesur o gyflawni nod dilys. Credwn y byddai'r Memorandwm yn well pe gellid gwneud y gwaith hwn yn llawer mwy eglur a chlr i'r darllenydd.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n glir yn ystod trafodaethau Cyfnod 1 sut y mae'r egwyddor o gymesuredd yn gymwys i'r diffiniad presennol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad a waherddir yn adran 55 o'r Bil.

Rhan 11 – Darpariaethau Terfynol

Adran 254 – Dod i rym

36. Mae adran 254 yn darparu y bydd rhai darpariaethau penodol o'r Bil yn dod i rym pan gaiff Gydsyniad Brenhinol. Daw gweddill darpariaethau'r Bil i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchmynion cychwyn a wneir o dan yr adran hon.

37. Mae gorchymyn o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed hefyd mewn cysylltiad â chychwyn darpariaethau'r Bil hwn. Nid oes gweithdrefn graffu. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn

¹⁷ “The draft Anti-Social Behaviour Bill: pre-legislative scrutiny” 12fed adroddiad sesiwn 2012-13, 15 Chwefror 2013 HC 836-I, paragraff 28.

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015, Cofnod y Trafodion [99].

oherwydd bod y gorchmynion hyn yn ymwneud â chychwyn a'u bod yn dechnegol eu natur.¹⁹

38. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“The Assembly will have approved the policy areas to be commenced by the passing of this Bill. So, approval of commencement Orders would, in effect, mean approval of matters that have already been approved. I think, again, we’ve probably touched on this before in previous Bills, but it’s about striking a balance, and I think what the Government’s done is to seek to strike a balance in doing this.”²⁰

Ein barn ni

39. Rydym wedi mynegi ein pryderon dro ar ôl tro am y materion hyn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ac mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud gorchmynion cychwyn gyda darpariaethau dros dro, trosiannol neu arbed yn destun dim gweithdrefn. Rydym yn dal i annog Llywodraeth Cymru i gymhwyso'r weithdrefn negyddol i bwerau o'r fath.

Argymhellwn fod y weithdrefn negyddol yn cael ei chymhwyso i orchmynion cychwyn sy'n cynnwys darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed a wneir yn unol ag adran 254(3).

¹⁹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 50.

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 11 Mai 2015 [61].